# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-13-07)

**SLC80**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**
**Teitl: Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn rhoi ar waith Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau godi ffioedd i dalu'r costau sy'n digwydd oherwydd gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion ar fewnforion penodol o ran planhigion, cynhyrchion planhigion a phethau eraill o drydydd gwledydd.

**Trefn: Negyddol**

1. Gwnaed y prif Reoliadau gan ddibynnu ar adran 29(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ogystal ag Adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973. Mae adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi cymryd lle Adran 29 o Ddeddf 1998, felly dylai adran 59(5) o Ddeddf 2006 fod wedi ei dyfynnu fel pŵer i ddibynnu arni i wneud y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, gan fod y pŵer yn bodoli, er na chafodd ei ddyfynnu, nid oes angen gwneud unrhyw waith adfer. Mae'r troednodyn o gymorth o ran arwain y darllenydd i 'r ddarpariaeth berthnasol. [Rheol Sefydlog 15.2(v)]

2. Mae testun Saesneg y rheoliad 3(a) newydd yn cynnwys y geiriau "Schedule 1 that are listed in" nad ydynt yn ymddangos yn y testun Cymraeg. Yr Atodlen 1 y cyfeirir ati yw honno yn y prif Reoliadau, ond mae absenoldeb y geiriau cyfeiriwyd yn rhoi'r ystyr anghywir i'r testun Cymraeg, sef colofn gyntaf Atodiad V, Rhan B y Gyfarwyddeb. Mae angen datrys y croesgyfeiriad anghyson cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllwyd uchod ac mae hefyd wedi nodi ei bod yn disgwyl y bydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio yn gynnar yn 2008.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**Tachwedd 2007**